

Catchphrase 2004: Ysbyty Brynaber - Week 51

Key Language

Gad i fi etc
Pam na/Pam dwyt ti ddim
Wyt ti wedi + Do/Naddo

New Words

Sudd oren	orange juice
Dwywaith	twice
Trin a thrafod	to discuss
Hollol dywyll	completely dark
Cydwybodol	conscientious
Rhewi	freezing
Tymor	season
Tawelu ei feddwl o	to ease his mind
Gorwedd	to lie down
Awyr agored	the open air
Hoe fach	a little rest
Sobri	to sober up
Loetran	to loiter
Llenni	curtains
Curo	to knock
Bron â	nearly
Newydd droi	just turned
Allwedd	key
Defnyddio	to use
Cloi	to lock
O'r tu mewn	from inside
Teg	fair
Annymunol	unpleasant
Deiseb	a petition
Claddu	to bury
Cefnogol	supportive
Tenau	thin/feeble
Tropyn	a drop
Gwirodydd	spirits
Math	type
Casglu	to collect
Cyflwyno	to present
Poeni	to worry
Trwydded	a licence
Gweinidog Iechyd	Health Minister
Golwg ofnadwy	a terrible sight
Colli gafael	to lose a grip
Cefnogaeth	support
Brechdanau	sandwiches
Yn feddw dwll	blind drunk
Strywa (SW)	to destroy

Main Grammatical Points

Gad i

Brian says: Gad i fi fynd ato fo i weld os ydy o'n iawn.

We have already come across the more formal form:
Gadewch i fi The informal form is:

Gad i fi or Gad i mi means let me

Gad i fi weld let me see

Other forms of this construction are:

Gad iddo fe/Gad iddo fo

Gad iddi hi

Gad i ni

Gad iddyn nhw

Note also that Brian said Gad i fi fynd ato fo i weld os ydy o'n iawn
Let me go to him to see if he's alright.

Though very common in everyday speech this construction is not strictly correct

When if conveys the meaning 'whether' the form is 'a'

So strictly speaking Brian should have said:

Gad i fi fynd ato fo i weld a ydy o'n iawn

Pam na/Pam dwyt ti ddim

There are two ways of conveying the negative form of the verb when it follows the question 'why'.
For example:

Pam dwyt ti ddim yn gwisgo cot ? or Pam nad wyt ti'n gwisgo cot?

Why aren't you wearing a coat?

Pan na wnei di wrando? or Pam wnei di ddim gwrando?

Why don't you listen?

Pam na fyddi di yn y ty heno? or Pam fyddi di ddim yn y ty heno?

Why won't you be in the house tonight?

Pam est ti ddim? or Pam nad est ti?

Why didn't you go?

Note the following

Na is used before a consonant and nad before a vowel

Na causes a soft mutation

Pam na wnei di

If you are using the na/nad construction there is no need to use ddim after the verb.

Wyt ti wedi + Do/Naddo

You will have learnt, I'm sure, that answers to the question Wyt ti or Ydych chi is YDW or NAC YDW.
It's worth noting however that you might hear a different answers to
Wyt ti wedi. For example if the question is Wyt ti wedi gorffen? The answer you'd expect would be
ydw or nac ydw. Some people however answer these questions with Do or Naddo.

Wyt ti wedi blino? Do or Naddo.

Although not strictly correct the Do/Naddo answer is very common.

Ysbyty Brynaber: Episode 151

Brian and Wendy meet for a drink. Wendy is very suspicious about Brian business arrangements with Jac Whelan.

Agnes and Jenny discuss the accusations made against Arwyn.

On their way home from the pub Wendy and Brian see a man sleeping on a bench – it's Arwyn Saunders. They take him home.

Geirfa

Sudd oren	orange juice
Dwywaith	twice
Trin a thrafod	to discuss
Hollol dywyll	completely dark
Cydwylbodol	conscientious
Rhewi	freezing
Tymor	season
Tawelu ei feddwl o	to ease his mind
Gorwedd	to lie down
Awyr agored	the open air
Hoe fach	a little rest
Sobri	to sober up

Golygfa 1

Brian - Wendy? Dyma ti. Dy sudd oren...

Wendy - Diolch.

Brian - Sut aeth dy ddsbarth Yoga di...?

Wendy - lawm. I should have kept it up from last year. Mae'n fy helpu fi i relacio...Neu ymlacio...

Brian - Dosbarth Cymraeg ydy o?

Wendy - Ie. It's a Welsh medium class with Eleri Wyn Prydderch....Mae yoga jyst y peth...There's only about six weeks to go now and this bump will be a living, screaming baby...Rwy'ti'n mynd i fod yno gyda fi on'd wyt ti, Brei?

Brian - Ydw...

Wendy - A dw i mor relieved that you and Jac Whelan didn't go out in the boat last week...

Brian - Jac oedd eisiau mynd...

Wendy - Beth sy'n mynd ymlaen, Brian? Dw i ddim yn stiwpid. Mae e wedi dod i lawr 'ma o Birmingham ddwywaith nawr...Beth ydych chi'n wneud?

Brian - Trin a thrafod ceir.

Wendy - Ie. And?

Brian - Beth?

Wendy - Dwy'ti ddim yn mynd i ddweud wyt ti?

Brian - Does yna ddim byd i ddeud...

Wendy - Yeah, yeah. And I'm an apricot.

Golygfa 2

Agnes - Wyt ti wedi sgwrsio 'da Arwyn wedyn?

Jenny - Mi wnes i drio ffonio fo sawl tro tros y penwythnos. Ond doedd dim ateb...

Agnes - Dim ateb?

Jenny - Na. Ac mi wnes i alw heibio'r ty nos Sul. Ond roedd o'n hollol dywyll...

Agnes - Ble roedd Arwyn 'te?

Jenny - Does dim syniad gen i. Doedd o ddim yn gweithio ddoe?

Agnes - Na. Sa i'n credu hynny. Ond dw i'n gwybod ei fod e'n gweithio shifft prynhawn 'fory. Dw i'n gwybod ei fod e'n becco am y cyhuddiadau yma sy'n ei erbyn e, ti'n gwybod...

Jenny - Mae'r peth yn hollol stiwpid.

Agnes - Dw i'n cytuno.

Ond wedi dweud hynny: mae'n rhaid i Arwyn gymryd llythyrau'r teulu Davies yma o ddifri.
Jenny - Ond Arwyn ydy'r doctor diwethaf y basai unrhyw un yn gallu ei gyhuddo o ddiolfalwch proffesiynol. Mae Arwyn yn ddoctor hollol gydwybodol...
Agnes - Ydy. Hollol gydwybodol...
Jenny - Does ganddo fo ddim achos i boeni.
Agnes - Dw i'n credu ei fod e'n becco yn ofnadwy.
Jenny - Fydd rhaid imi drïo cael gair hefo fo er mwyn tawelu ei feddwl o.

Golygfa 3

Brian - Sut wyt ti'n teimlo rwan? Wendy - Beth wyt ti'n feddwl?
Brian - Ar ôl y sesiwn yoga 'na. Wyt ti'n teimlo fel mynd i gysgu pan ei di yn ôl i'r fflat...?
Wendy - Dw i'n teimlo'n eitha 'relaxed' o hyd – ond yn oer. Wyt ti'n gallu troi 'heater' y car 'ma lan? Dw i'n rhewi...
Brian - Well rwan?
Wendy - Dw i'n casáu adeg yma o'r flwyddyn. Rhew. Eira. I hate driving in this weather...
Brian - Fydda i ddim yn cael gyrru car am chwe mis. Dw i'n 'banned' on'd ydw i?
Wendy - Mae'n lot gwell gyda fi'r haf. A ti?
Brian - Fi?
Wendy - Ie. Pa dymor yw'r gorau gyda ti?
Brian - Yr Hydref, dw i'n meddwl...Wendy! Stopia!
Wendy - Beth?
Brian - Stopia'r car rwan...Edrycha: mae rhyw foi yn cysgu ar y fainc draw fan acw.
Wendy - That's nuts. Hypothermia will set in. Awr yn y tywydd yma a fydd e wedi marw.
Brian - Â i ato fo i weld a ydy o'n iawn... Oi! Tyrd yn dy flaen. Wyt i'n gallu 'nghlywed i? Do you hear me?
Arwyn - Beth ydych chi'n wneud i fi?
Brian - Arwyn! Mawredd y byd! Beth wyt ti'n wneud yn gorwedd allan fan hyn yn yr awyr agored?
Arwyn - Dim ond eisiau hoe fach ar fy ffordd gartre o'r Yacht Club oeddwn i...
Brian - Tyrd!
Arwyn - Hei, beth wyt ti'n wneud?
Brian - Mae'r car draw yn fan'cw. A dw i'n mynd â ti adref y munud yma. Galli di sobri o flaen y tân...

Ysbyty Brynaber: Episode 152

Jenny calls to see Arwyn at the house. She tries to reassure him that he has nothing to worry about.

Arwyn later calls at Brian's garage and asks whether he sells alcohol. Brian directs him to the corner shop.

Geirfa

Loetran	to loiter
Llenni	curtains
Curo	to knock
Bron â	nearly
Newydd droi	just turned
Allwedd	key
Defnyddio	to use
Cloi	to lock
O'r tu mewn	from inside
Teg	fair
Annymunol	unpleasant
Deiseb	a petition
Claddu	to bury
Cefnogol	supportive
Tenau	thin/feeble
Casglu	to collect
Defnyddio	to use
Tropyn	a drop
Gwirodydd	spirits

Golygfa 1

Jenny - ...Tyrd yn dy flaen, Arwyn, mae hi'n rhy oer i loetran allan yn fan'ma...Oes yna rhywun adref? Arwyn?

Jenny - Ac mae'r llenni i gyd ar gau...

Arwyn - Helo?

Jenny - Arwyn? Fi sy yma...

Arwyn - Beth wyt ti moyn?

Jenny - Ti heb fy nghlywed i'n curo ar y drws?

Arwyn - Pa ddrws?

Jenny - Y drws ffrynt. Drws ffrynt dy dy di. Neu efallai mai ein ty ni ddylwn i ddweud.

Arwyn - Faint o'r gloch yw hi?

Jenny - Newydd droi hanner dydd. Arwyn? Wyt ti am agor y drws imi? Dw i bron â rhewi allan yn fan hyn...

Arwyn - Gad i fi roi 'dressing gown' ymlaen gyntaf.

Jenny - Brysia, plis.

Arwyn - Does dim allwedd gyda ti 'te?

Jenny - Oes.

Arwyn - Pam na fyddet ti'n ei ddefnyddio fe 'te?

Jenny - Doedd dim pwynt? Roeddet ti wedi cloi y drws o'r tu mewn...

Edrycha. Rydw i'n sefyll ar dy lythyrau di.

Arwyn - Dere drwodd...

Jenny - Ti'n iawn?

Arwyn - Na, dw i ddim yn iawn. Gan dy fod ti'n gofyn. Ti siwr o fod wedi clywed beth sydd wedi digwydd i fi yn y gwaith?

Jenny - Ydw. Wrth gwrs... Mae o'n beth annymunol iawn i ddigwydd i unrhyw un...

Arwyn - Annymunol? Er mwyn dyn, Jenny! Annymunol! Allen i feddwl am eiriau gwell nag annymunol i ddisgrifio beth sydd wedi digwydd i fi!

Jenny - Ie...Wel...

Arwyn - Ie, wel, beth...?

Jenny - Dydy o ddim yn deg. Ac rwy'ti'n deall bod yna ddeiseb yn mynd o gwmpas yr ysbyty?
 Arwyn - Diolch i Agnes Rees..
 Jenny - Ac hefo'r ddeiseb yma, mi fydd yr holl fater yn siwr o gael ei gladdu.
 Arwyn - Gawn ni weld.
 Jenny - Does gen ti ddim byd i boeni amdano. Mae pawb. Y nyrsus, y doctoriaid, y registrars, y rheolwyr, pawb. Mae pawb yn hollol gefnogol i ti.
 Arwyn - Ond does dim dal beth wnaiff ddigwydd.
 Jenny - Yr unig beth mae teulu'r ddynes Davies yma eisiau ydy pres. Pres. Dyna'r cwbl. A gamblydy hi. Ond maen nhw'n gwybod bod yr achos sydd ganddyn nhw yn dy erbyn di yn denau iawn..
 Arwyn - Sa i mor siwr. Fe gawn ni weld.

Golygfa 2

Brian - ...thank you, madam. And as they say in downtown L.A., 'You have a nice day now!'...
 Arwyn - Brian...Prynhawn da...
 Brian - Arwyn - pa hwyl?
 Arwyn - Eitha. Ond ges i noswaith hwyr yn yr Yacht Club. Dw i'n teimlo ychydig bach yn 'hungover'...
 Brian - Rydyn ni i gyd yn cael tropy'n yn ormod weithia...
 Arwyn - Doeddwn i ddim wedi bwyta dim byd trwy'r dydd. A rhywsut aeth dau 'drink' yn dri, tri yn bedwar, pedwar yn bump...
 Brian - Nes est ti'n chwil?
 Arwyn - Yn anffodus.
 Brian - Does na ddim byd gwaeth nag yfed ar stumog wag.
 Arwyn - Nac oes.
 Brian - Pa bwmp ydych chi?
 Arwyn - Pwmp pedwar.
 Brian - Pum punt a deugain union...
 Arwyn - Brian?
 Brian - Beth?
 Arwyn - Ydych chi'n gwerthu caniau?
 Brian - Caniau cwrw felly?
 Arwyn - Ie. Neu boteli o wirodydd. Mae hi'n ben-blwydd ar hen ffrind i fi...Kenneth Evans a dw i moyn mynd â rhywbeth bach draw i'r ty iddo fe yn anrheg...
 Brian - Nac oes mae'n ddrwg gen i. Does gynnon ni ddim trwydded i werthu alcohol yn y garej yma. Ond mi gei di ddigon o ddewis yn siop Harris ar y gornel fan acw. Pob math o bethau.... Beth bynnag wyt ti isio.
 Arwyn - Iawn. Da iawn. Af fi draw yno nawr...

Ysbyty Brynaber: Episode 153

Agnes has organised a petition to support Arwyn in his negligence case. Jenny says that she is particularly worried about Arwyn and the fact that he is drinking heavily.

Brian calls at Wendy's flat. She tells him that she's got a job – as a part time barmaid at the Yacht Club.

Arwyn arrives at the hospital – he is hopelessly drunk. He rants and raves at Jenny and finally throws a bottle of whisky at her.

Geirfa

Casglu	to collect
Cefnogaeth	support
Math	type
Cyflwyno	to present
Poeni	to worry
Trwydded	a licence
Gweinidog Iechyd	Health Minister
Golwg ofnadwy	a terrible sight
Colli gafael	to lose a grip
Brechdanau	sandwiches
Strywa (SW)	to destroy

Golygfa 1

Jenny - A faint o enwau wyt ti wedi eu casglu hyd yn hyn?

Agnes - Bron i dri chant...

Jenny - Nefoedd! Rwyd ti wedi bod yn brysur, Agnes...

Agnes - Os mynd ati gael deiseb: y pwynt yw cael cymaint o enwau alla i arno fe ynte?

Jenny - Ac i bwy wyt ti'n meddwl cyflwyno'r ddeiseb?

Agnes - I bwy bynnag. Rheolwyr yr ysbyty. Yr Awdurdod Iechyd. Neu hyd yn oed i'r Gweinidog Iechyd yn y Cynulliad. Ac os aiff yr achos yn erbyn Arwyn i'r llys, wel, fe aiff y ddeiseb o flaen y barnwr hefyd...

Agnes - Pam? Beth sydd?

Jenny - Poeni ydw i.

Agnes - Rydyn ni i gyd yn becsu, Jenny.

Jenny - Ond mae golwg ofnadwy ar Arwyn...

Agnes - Beth wyt ti'n feddwl...?

Jenny - Es i draw i'r ty wythnos diwetha i'w weld o...Ac roedd y lle yn llawn o boteli...Mae o'n yfed trwy'r amser...A doedd o ddim...Doedd o erioed yn yfed mor drwm.

Agnes - Ti'n ffael teimlo'n euog.

Jenny - Byth ers imi ei adael o, mae o wedi colli gafael arno fo'i hun...

Agnes - Dw i'n credu bod ti'n pryderu gormod nawr.

Jenny - Wyt ti'n meddwl?

Agnes - Ydw. Fydd Arwyn yn iawn. Dw i'n hollol siwr o hynny. Y cyfan mae e eisiau yw cefnogeth pawb. Ac rydyn ni'n fwy na pharod i wneud hynny – on'd ydyn ni?

Jenny - Ydyn.

Golygfa 2

Brian - Wendy?

Wendy - Dw i yn yr ystafell ymolchi...

Brian - Edrycha. Mi ddes i â cinio inni...

Wendy - Beth?

Brian - Brechdanau i fi...Baguette i ti...Ychydig o domatos...A sudd oren go iawn...

Wendy - Beth ti'n feddwl? 'Go iawn?'

Brian - Y math mae Rhodri a Beca yn ei gasáu...Ti'n gwybod, sudd oren hefo 'bits.'

Wendy - Dere i fi moyn gwydrau inni 'te.
Brian - Mae rhywun yn hapus iawn yma prynhawn 'ma!
Wendy - Ac wyt ti'n gwybod pam...?
Brian - Pam...?
Wendy - Dw i wedi cael job!
Brian - Job? Ti?
Wendy - Ie fi.
Brian - Ers pryd?
Wendy - Bore 'ma.
Brian - Pa fath o job?
Wendy - Barmaid. Part-time. Not a particular sexy barmaid, being nearly eight months pregnant and all. Ond ddwedodd e galla i ddechrau weekend yma sy'n dod nawr...
Brian - Pwy ddwedodd dy fod ti'n gallu dechrau? A ble?
Wendy - Benny ddwedodd. Ti'n nabod, Benjamin McNeal.
Brian - Beth? Rwyd ti wedi cael job yn yr Yacht Club?

Golygfa 3

Agnes - Jenny! Jenny! Dere! Glou!
Jenny - Beth sy'?'
Agnes - Dw i'n ffael credu'r peth...
Jenny - Beth? Beth sy? Beth sy'n bod?
Agnes - Arwyn...
Jenny - Beth amdano fo? Beth sy wedi digwydd?
Agnes - Mae e wedi troi lan i'r gwaith yn feddw dwll.
Jenny - Beth?
Agnes - Mae e wedi troi lan i'r gwaith yn feddw dwll!
Jenny - O! Nefoedd yr adar! Ble mae o? Oes yna rywun wedi'i weld o?
Agnes - Gwnes i drïo ei gadw fe yn fy swyddfa i...Ond aeth e'n hollol 'ballistic'...
Jenny - Beth wyt ti'n feddwl...?
Agnes - Mae e eisïau dy weld ti...Mae e eisïau siarad â ti.
Arwyn - Jenny...
Jenny - Arwyn. Tyrd. Yn ôl i swyddfa Agnes.
Arwyn - Ddim tan wyt ti a fi wedi siarad.
Jenny - Arwyn, plis.
Arwyn - Ddim tan wyt ti a fi wedi sortio cwpwl o bethau mas...
Agnes - Dere nawr, Arwyn...
Arwyn - Y bitsh iti! Ti'n clywed? Wyt ti, Jenny? Jenny fach, neis. Y fenyw mae pawb yn meddwl y byd ohoni. Ond dyma'r bitsh sy wedi strywa fy mywyd i...! Strywa fy mywyd i!
Jenny - Arwyn, stopia! Stopia wnei di!

Synopsis

Wendy and Brian came across Arwyn Saunders in a drunken state sleeping on a bench.

Agnes Rees has organised a petition to support Arwyn if his case of professional negligence goes to court. Jenny has told Agnes that she is really worried about Arwyn and his excessive drinking habits.

Wendy's got a job as a barmaid in the Yacht Club.

Arwyn turned up at the hospital drunk out of his mind and started shouting at Jenny:

Test yourself

- How would you translate 'let him see' into Welsh?
 - Gadewch iddo fe weld**
 - Gad iddo fo gweld
 - Gadewch iddo fe edrych
- How would you translate 'Why aren't you going?' into Welsh?
 - Pam nad wyt ti'n mynd?**
 - Pam wyt ti'n mynd?
 - Pam dwyt ti'n mynd?
- How would you translate 'Why won't she talk' into Welsh?
 - Pam dydy hi ddim yn siarad?
 - Pam na wnaiff hi siarad ?**
 - Pam fydd hi ddim yn siarad?
- What's the Welsh phrase for 'to discuss'?
 - trin a thrafod**
 - trin a siarad
 - trin a dadlau
- How would you say 'It's just turned three' in Welsh?
 - Mae hi wedi troi tri
 - Mae hi newydd wedi troi tri
 - Mae hi newydd droi tri**
- What's the Welsh for 'unpleasant'?
 - anwybyddu
 - anobeithiol
 - annymunol**